| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 23 Ebrill 2024 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau, Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Diweddariad i Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2025/26 – 2027/28 ac adolygiad o Gadernid Ariannol a Chynaliadwyedd y Cyngor. |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n weddill yn ymwneud â chyllideb 2024/25, yn gosod y cefndir ar gyfer pennu'r gyllideb yn y tymor canolig (2025/26 – 2027/28), ac yn hunanasesu lefel bresennol y cyngor o gadernid a chynaliadwyedd ariannol.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar

- faterion sy'n weddill yn ymwneud â chyllideb 2024/25
- strategaeth gyllidebol arfaethedig ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2025/26 fel y nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC)
- rhagamcanion ariannol ar gyfer y cyfnod 3 blynedd 2025/26 i 2027/28 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) lefel uchel, a
- hunanasesiad o wytnwch a chynaliadwyedd ariannol y cyngor

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn ystyried, cymeradwyo ac yn rhoi adborth ar y diweddariadau a restrir yn 2.1 uchod.

3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo cychwyn y cyfnod dylunio ar gyfer prosiectau Ysgol Bro Elwern, Ysgol Henllan, Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol y Llys i alluogi i'r Achos Busnes Llawn gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo fel y manylir arno yn adran 4.7 ac Atodiadau 6 i 9

# 4. Manylion yr adroddiad

## Crynodeb o'r sefyllfa wrth bennu cyllideb 2024/25 - Atodiadau 1 a 2

4.1. Mae crynodeb o sefyllfa pennu cyllideb 2024/25 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Mae hyn yn cynnwys diweddariad ar y Setliad Ariannu Terfynol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a'r traciwr arbedion yn Atodiad 2.

## Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2027/28 – Atodiadau 3 a 4

4.2. Mae Atodiad 3 yn nodi'r rhagamcanion cyllideb cyfredol ar gyfer 2025/26 – 2027/28 ynghyd â'r tybiaethau sy'n sail i'r rhagamcanion. Ar y cam hwn ym mhroses y gyllideb mae'r CATC yn dangos amcangyfrifon lefel uchel o bwysau hysbys ynghyd ag effaith y cynnydd amcangyfrifedig yn Nhreth y Cyngor a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r tabl yn cynnwys ystod o ragdybiaethau i ddarparu amcangyfrifon isel, canolig ac uchel o gostau ar gyfer pob pwysau, gan ddangos ansicrwydd y ffigurau a faint o waith sydd angen ei wneud o hyd i fireinio'r rhagamcanion hyn.

4.3. Atodiad 4 yw'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) sy'n nodi dull strategol y Cyngor o reoli ei gyllid ac yn amlinellu rhai o'r problemau ariannol a fydd yn wynebu'r Cyngor dros y tair blynedd nesaf.

4.4. Dyma gylch cyntaf y SATC 2025/26 – 2027/28 ac mae wedi'i lunio gyda'r data a'r wybodaeth oedd ar gael erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Mae'r ddogfen yn fersiwn gynnar, a bydd yn cael ei mireinio wrth i flwyddyn ariannol 2024/25 fynd rhagddi. Bydd yn nodi ffrydiau gwaith sydd angen symud ymlaen yn ystod y flwyddyn.

4.5. Mae'r cyngor wedi wynebu her ariannol sylweddol wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2024/25, a fydd yn parhau yn y tymor canolig. Mae hyn oherwydd cyfuniad o ddiffyg cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru (yn unol â'r rhagdybiaeth gyfredol), effaith barhaus chwyddiant a chynnydd yn y galw am wasanaethau, yn ogystal â chymhlethdod yr angen amdanynt. Ni ddylid diystyru maint yr her ariannol sy'n wynebu'r cyngor. Y pwyntiau allweddol yw:

- Mae'n anodd rhagweld y pwysau ond maent yn amrywio o £15m i £27m yn 2025/26 gydag ystod ganolig o £21m. Rhagwelir ystodau tebyg ar gyfer 2026/27 a 2027/28.
- Ni roddodd setliad cyllid 2024/25 gan Lywodraeth Cymru unrhyw arwydd o gyllid yn y dyfodol fel y mae wedi'i wneud dros y 2 flynedd ddiwethaf. Mae cyllid yn y dyfodol o fewn y CATC yn seiliedig ar asesiadau gan Ddadansoddiad Cyllid Cymru, gyda gostyngiadau ychydig yn negyddol yn absenoldeb unrhyw beth arall.
- Mae'r rhagdybiaethau a wneir ynghylch codiadau Treth y Cyngor yn y CATC yn amrywio o 6% - 12% ar gyfer 2025/26 a chyfartaledd hirdymor o 5.5% wedi hynny ar gyfer y ddwy flynedd, er ei bod yn bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto. Mae rhagdybiaeth ganolig o gynnydd yn Nhreth y Cyngor o 9% ar gyfer 2025/26 yn rhoi £6.8m ychwanegol. Fodd bynnag, dim ond mynd i'r afael â thraean o'r bwlch ariannu y mae hyn - mae'r bwlch sy'n weddill yn sylweddol ar £14.5m.
- Dylai'r cyngor fod yn bwriadu cymryd camau i leihau'r gwariant net rhagamcanol o tua £21m yn 2025/26 i bennu cyllideb gytbwys. Mae hynny'n gostwng i tua £15m pe bai cynnydd o tua 9% yn Nhreth y Cyngor yn cael ei gefnogi.

## Hunanasesiad o Gadernid a Chynaliadwyedd Ariannol – Atodiad 5

4.6. Yng nghyfarfod mis Ionawr 2024 o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gwnaed cais i brofi straen ar brosesau cyllidebol y Cyngor. Yn benodol, cyfeiriwyd at ganllawiau ac adroddiad a ysgrifennwyd gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth). Mae Atodiad 5 yn asesiad o safbwynt y Cyngor yn erbyn themâu a materion cyffredin a nodwyd gan CIPFA.

**Cymeradwyo Cyllid Rhaglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru – Atodiadau 6 – 9**

4.7. Mae’r Grŵp Craffu Cyfalaf wedi adolygu a chefnogi achosion busnes ar gyfer dechrau’r cyfnod dylunio ar gyfer prosiectau Ysgol Bro Elwern, Ysgol Henllan, Ysgol Bro Cinmeirch ac Ysgol Y Llys i alluogi i’r achos busnes llawn gael ei gyflwyno i’w gymeradwyo gan Grant Cyfalaf y Gymraeg a Rhaglenni Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn Atodiadau 6 i 9. Mae cadarnhad wedi'i roi y bydd costau'r cyfnod dylunio hyn yn dal i fod yn gymwys ar gyfer cyllid grant os na fydd yr Achos Busnes Llawn yn llwyddiannus.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae rheoli cyllidebau’r cyngor yn effeithiol a chyflawni’r strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae’r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Fel y nodir yn yr adroddiadau cyllideb hyd yma ar gyfer 2024/25. Bydd goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol yn dod yn gliriach wrth i ni symud strategaeth y gyllideb yn ei blaen.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer pob cynnig arbedion mawr wrth bennu cyllideb 2024/25. Cafodd pob asesiad eu coladu a’u hadolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad. Bydd hyn yn amlygu unrhyw themâu a phatrymau sy’n dod i’r amlwg ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o’r nodau lles. Bydd hefyd yn edrych ar p’un a oedd yr arbedion yn effeithio’n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig penodol. Cafodd hwn ei goladu i ffurfio Asesiad o Effaith ar Les cyffredinol ynghylch effaith mesurau lleihau cyllideb angenrheidiol i ffurfio cydgasgliad lefel uchel o fesurau cyfunol y gyllideb, ac mae'r gwaith hwn yn parhau wrth i gynigion arbedion barhau i gael eu mireinio.

7.2. Caiff proses debyg ei rhoi ar waith wrth bennu cyllideb 2025/26.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Fel y nodir yn y SATC, datblygwyd Cynllun Cyfathrebu ar gyfer y gyllideb er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â’r grwpiau canlynol ar yr adegau priodol: Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Tîm Arwain Strategol, y Cabinet, Arweinwyr Grŵp, holl Aelodau’r Cyngor, y Fforwm Cyllidebau Ysgolion, Undebau Llafur, ein gweithwyr, busnesau lleol a’n trigolion.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae’r Cyngor, ynghyd â chynghorau eraill yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae'r adroddiad yn crynhoi ac yn cloi gwaith ar gynllunio ariannol ar gyfer 2024/25, mae'r gwaith bellach yn trosglwyddo i fonitro cyllideb 2024/25. Darperir y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau drwy'r adroddiad diweddaru cyllid misol i'r Cabinet.

9.2. Nod y SATC yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllidebau cytbwys yn y dyfodol. Bydd nodi’r rhagamcanion a’r strategaeth yn fuan yn yr adroddiad hwn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar wybodaeth gyflawn ac yn barod i bennu cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae’r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o nodi cynigion ar gyfer y gyllideb eu hasesu a’u cymeradwyo mewn ffordd drefnus a phrydlon. Byddai methu â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posibl eraill, yn peryglu cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26.

10.2. Mae adran fanwl ar risg wedi’i chynnwys yn y SATC yn atodiad 4.

10.3. Mae risgiau o ran capasiti’r tîm Cyllid y mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt. Mae’r tîm ar hyn o bryd yn gweithio gydag Archwilio Cymru ar yr archwiliad o gyfrifon 2022/23, a hefyd ar gau cyfrifon 2023/24 ym mis Ebrill a mis Mai. Fel arfer mae capasiti cyfyngedig iawn ar gyfer unrhyw beth arall heblaw cau'r cyfrifon yn ystod mis Ebrill a mis Mai. Eleni fodd bynnag, mae system ariannol newydd yn cael ei chyflwyno o 1 Ebrill, a fydd yn ychwanegu

pwysau.  Yn yr un modd â chyflwyno unrhyw system newydd sy'n effeithio ar gannoedd o ddefnyddwyr ar draws ein holl systemau ariannol, bydd rhywfaint o aflonyddwch cyn i bethau setlo.

10.4. Mae diweddariadau cyllid misol o'r flwyddyn ariannol newydd fel arfer yn weithredol erbyn mis Mehefin. Mae'n debygol mai mis Gorffennaf eleni fydd hi os bydd y system newydd yn gwneud cynnydd da, ond gallai hyd yn oed fod mor hwyr â mis Medi.  Mae hyn yn peri risg i'r Cyngor oherwydd na all adrodd yn llawn ar wariant yn erbyn y gyllideb yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y flwyddyn ariannol.  Er mwyn lliniaru'r risg hwn, byddwn yn gwneud eithriad ac yn adrodd ar unrhyw feysydd o orwariant sylweddol, yn ogystal ag adrodd ar y traciwr arbedion yn rheolaidd.  Bydd diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r Cabinet ar y risgiau hyn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.